# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0853(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Ebrill 2008

**At Bethan Jenkins:**

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r cwestiwn atodol y gwnaethoch ei godi gyda mi yn ystod sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 8 Ebrill 2008. Yn ystod y drafodaeth honno, fe wnaethoch nodi i sefydliad Cymunedau'n Gyntaf roi gwybod i chi bod y Dirprwy Weinidog dros Adfywio wedi cynnal cyfarfod â Chydgysylltwyr Cymunedau'n Gyntaf yn y Rhondda, ond nad oedd y cyfarfod hwn yn cynnwys pobl o'r tu allan i'r ardal, a thrwy hynny eithrio pobl o rannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol.

Gallaf gadarnhau i Leighton Andrews gyfarfod â chynrychiolwyr lleol o grwpiau Cymunedau'n Gyntaf y Rhondda ddydd Gwener 18 Ebrill. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Cynulliad etholaeth y Rhondda, ac nid oedd yn gyfarfod Gweinidogol.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0864(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mai 2008

**At Lesley Griffiths:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein trafodaeth ddiweddar yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ddydd Mawrth 8 Ebrill 2008 ynghylch gwaith ymchwil Ofcom a materion band eang.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriais at adroddiad y bydd Ofcom, y corff rheoleiddio cyfathrebu, yn ei gyhoeddi'n fuan. Mae'r adroddiad yn amlinellu adolygiad blynyddol Ofcom o'r marchnadoedd telathrebu, teledu a radio ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, ac yn helpu i bennu'r cyd-destun ar gyfer penderfyniadau polisi gan y corff rheoleiddio ac eraill. Bydd Ofcom yn cyhoeddi canfyddiadau ei waith ymchwil diweddaraf ar 22 Mai 2008, a bydd yn cynnal digwyddiad lansio yn ei swyddfa yng Nghaerdydd i nodi'r achlysur.

Mae'r gwaith ymchwil a wnaed ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2008 yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n defnyddio band eang yng Nghymru yn parhau i gynyddu. Dengys ein ffigurau fod nifer y bobl sy'n defnyddio band eang wedi cynyddu o 51% o aelwydydd y llynedd i 58% heddiw. Mae'n galonogol hefyd bod yr ymchwil yn rhagweld cynnydd o 5% yn nifer yr aelwydydd a fydd yn manteisio ar fand eang yn ystod y deuddeg mis nesaf.

Serch hynny, ceir nifer fach o aelwydydd a busnesau yn rhai rhannau o Gymru sy'n parhau i wynebu anawsterau wrth geisio cael gwasanaeth band eang sylfaenol. Caiff y rhain eu hadnabod fel 'mannau gwan' ar gyfer derbyn band eang. Mae'n amhosibl pennu union nifer a lleoliad y mannau hyn gan fod y problemau ond yn codi yn ystod y broses o wneud cais am wasanaeth band eang. Felly, rydym wedi cymryd camau i nodi'r mannau gwan drwy sefydlu gwefan ar gyfer cofrestru'r mannau hyn. Hyd yn hyn, cafwyd dros 1,400 o gofrestriadau. Gall eich etholwyr gofrestru eu methiant i gael gwasanaeth band eang drwy fynd i wefan cofrestru mannau gwan Llywodraeth y Cynulliad, sef www.brnw.org.uk, neu drwy ffonio 01443 846700.

Fel y gwyddoch hefyd, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ar 9 Ebrill 2008 y byddai camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mannau gwan yng Nghymru ar gyfer derbyn band

eang. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal proses gaffael maes o law er mwyn chwilio am gwmni neu gonsortiwm telathrebu i fynd i'r afael â'r anawsterau yn y mannau hynny, lle y bo hynny'n ymarferol ac yn hyfyw'n economaidd. Fel yr awgrymwyd yn ystod y drafodaeth, bydd croeso i gwmnïau bach a mawr wneud cais a hynny'n unigol neu fel rhan o gonsortiwm gyda phartner arweiniol. Bydd y broses gaffael yn cael ei hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn fuan, gyda'r bwriad o ddyfarnu'r contract yn nes ymlaen eleni.

Wrth ystyried atebion, mae'n bwysig cofio y gellir darparu band eang drwy ystod o dechnolegau, ac mae gan bob un ei rinweddau a'i gyfyngiadau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ffafrio dull gweithredu 'technoleg niwtral' ar gyfer band eang, gan gredu y bydd hyn yn ysgogi atebion arloesol o'r diwydiant ac felly'n sicrhau bod yr ateb gorau'n cael ei nodi ar gyfer pob man gwan.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod ei bod yn bwysig i fusnesau ac i ddinasyddion ledled Cymru eu bod yn gallu defnyddio dulliau fforddiadwy a diogel o delathrebu. Mae'n bwysig bod seilwaith telathrebu Cymru yn gallu ymateb i'r her hon a'i fod, drwy hynny, yn gallu helpu i greu economi lewyrchus yng Nghymru a fydd yn mynd o nerth i nerth. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu ac Ofcom, y corff rheoleiddio cyfathrebu, er mwyn rhannu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r seilwaith cyfathrebu, er mwyn deall yr hyn sy'n rhwystro buddsoddiad, gan gynnwys materion rheoleiddio, cynllunio ac economaidd, ac er mwyn llywio'r gwaith o lunio polisïau yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad am Gynllun Cyflenwi 'Cymru'n Un' a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mai 2008**

**At Nick Bourne:**

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r pwyntiau a godwyd gennych yn ystod trafodaeth y cyfarfod llawn ynghylch Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un, ddydd Mawrth 8 Ebrill. Nid oedd digon o amser yn ystod y drafodaeth i ymdrin â phob pwynt a godwyd gennych, a dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ymdrin â phroblem bagiau siopa sy'n cael eu defnyddio unwaith, p'un ai'n fagiau plastig neu bapur, ac ar nifer o achlysuron mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol ein bod yn awyddus i ymdrin â'r mater hwn. Dyna pam, ym mis Chwefror 2007, yr ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â DEFRA, y gweinyddiaethau datganoledig eraill ac WRAP (Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau), i'r cod gwirfoddol, ar y cyd â'r diwydiant manwerthu, i leihau effaith bagiau plastig ar yr amgylchedd. Mae manwerthwyr wedi cytuno i weithio i leihau effaith cyffredinol bagiau plastig ar yr amgylchedd o 25% erbyn diwedd 2008.

Roedd yr adroddiad interim a gyhoeddwyd gan WRAP ym mis Chwefror 2008 yn dangos gostyngiad o 14% yn effaith y bagiau hyn ar yr amgylchedd. Cafwyd gostyngiad o 1 biliwn yng nghyfanswm nifer y bagiau plastig a ddefnyddir gan y llofnodwyr, o 13.4 biliwn i 12.4 biliwn. Nid yw hyn yn dangos gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm nifer y bagiau plastig, ac yn ystod cyfarfod rhwng y llywodraeth a manwerthwyr i adolygu datblygiad y cod gwirfoddol, gofynnom i fwy gael ei wneud i leihau nifer y bagiau plastig sy'n cael eu rhoi i siopwyr. Mae'n bryd i archfarchnadoedd gymryd cyfrifoldeb am effaith bagiau plastig ar yr amgylchedd, ac rydym yn croesawu'r cam gan Marks and Spencer i godi tâl o 5c am fagiau plastig bwyd fel cam cadarn a dewr, a'r penderfyniad cywir.

Yn ogystal, croesawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddiad yn Araith Cyllideb 2008 y Canghellor, y bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau i godi treth ar fagiau plastig sy'n cael eu defnyddio unwaith os na fydd manwerthwyr yn cymryd digon o gamau eu hunain. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn craffu'n agos iawn ar effaith y cod gwirfoddol yng Nghymru wrth ystyried pa ymyrraeth bellach y mae ei hangen.

Y llynedd, gosododd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) drafft, mewn perthynas â Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cael pwerau deddfu yng Nghymru i ddatblygu hyn. Byddai'r Gorchymyn hwn, o'i wneud, yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried camau pellach i fynd i'r afael â bagiau plastig sy'n cael eu defnyddio unwaith, os mai dyna fyddai'r cam cywir. Fel y gwyddoch, nid fydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer i gymryd unrhyw gamau deddfwriaethol tan y rhoddir y cymhwysedd hwn i ni.

Rydym yn parhau i annog camau gwirfoddol cymunedol. Mae siopwyr wedi dod i ddisgwyl y darperir bagiau plastig am ddim mewn mannau talu, ond ymddengys fod y llanw ar droi, ac mae mentrau a arweinir gan gymunedau lleol, fel y rhai yn Llandysilio a Llangollen i beidio â defnyddio bagiau plastig, yn dangos awydd cynyddol oddi mewn i gymunedau am ddewisiadau mwy ecogyfeillgar. Ddiwedd y llynedd, fel rhan o becyn cyllido i wella ansawdd yr amgylchedd lleol ac annog newid yn niwylliant defnyddwyr, cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd gyllid ar gyfer dau brosiect treialu, a reolir gan Cadwch Gymru'n Daclus a Cymru Gynhaliol, i hyrwyddo cymunedau heb fagiau plastig yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennych ynglŷn â chynllun y newydd-ddyfodiaid i ffermio, mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'n partneriaid, yn ceisio rhoi nifer o fesurau cymorth ar waith i gynorthwyo newydd-ddyfodiaid ifanc. Un o elfennau'r ddarpariaeth yw'r pecyn cyllido gwerth £2m o 2010, a gyhoeddwyd yn y gyllideb. Mae mesurau eraill yn debygol o gynnwys cyngor busnes, cymorth addysg, a rhaglenni datblygu sgiliau, sydd wedi'u targedu at newydd-ddyfodiaid ifanc trwy Gyswllt Ffermio. Rydym hefyd yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau penodol mewn perthynas â rheoli materion olyniaeth ar ffermydd.

Er mwyn llywio manylion y pecyn cymorth cyffredinol, mae Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, wedi sefydlu grŵp pwrpasol o randdeiliaid allanol. Bydd y grŵp hwn yn cynnig cyngor ynglŷn â'r ymgynghoriad sydd ar y gweill, a'r strategaeth a geir o ganlyniad i hynny. Dewiswyd yr holl aelodau ar sail eu profiad a'u record o ran sefydlu busnesau llwyddiannus fel ffermwyr ifanc eu hunain, neu ar sail y ffaith eu bod wedi gweithio gyda llawer o newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ac wedi eu tywys a'u cynghori. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r aelodaeth yn hynod arloesol, gyda chyfoeth o syniadau mentrus a dealltwriaeth eang o'r materion a'r heriau sy'n wynebu ein pobl ifanc. Un o brif flaenoriaethau'r grŵp yw pennu ystod o fesurau posibl, y disgwylir eu cyhoeddi yn ystod yr haf fel rhan o ymarfer ymgynghori eang.

Dylai'r gefnogaeth i ddatblygu sgiliau a hyfforddi Newydd-ddyfodiaid, y daw'r cyllid ar ei chyfer o'r cyllidebau Materion Gwledig presennol, gael ei lansio yn ystod 2009 a'i chyflwyno trwy Gyswllt Ffermio. Bydd manylion y cymorth yn cael eu llywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac efallai y bydd y grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys mentora, hyfforddiant ym maes cyllid, marchnata, cynllunio busnes a rheoli olyniaeth.

Rydym yn disgwyl y bydd yr agweddau ar y cynllun sy'n dibynnu ar y gyllideb £2 filiwn yn cael eu lansio yn 2010. Bydd yr adolygiad parhaus o fesurau echel 2 y Cynllun Datblygu Gwledig, a chymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r cynllun ddod yn rhan o'r Cynllun, yn dylanwadu ar ddyddiad gwirioneddol y lansiad.

Mewn ymateb i'r pwynt a godwyd gennych ynglŷn â Swyddfeydd Post, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo yn nogfen Cymru'n Un i greu Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post addasedig, ac mae'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio wedi cyhoeddi y rhoddir y gronfa hon ar waith ar 1 Ionawr 2009. Rydym yn siomedig ynglŷn â bwriad Swyddfa'r Post Cyfyngedig i gau rhai o'r Swyddfeydd Post sydd, yn y gorffennol, wedi cael cyllid o'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post. Yn unol â hyn, ni fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynglŷn â chwmpas a chylch gwaith y Gronfa newydd, tan y bydd gennym fwy o wybodaeth am ba swyddfeydd post y mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn bwriadu eu cau ledled Cymru. Rydym am wneud hyn yn gywir, a'n bwriad yw ymgynghori yn ystod yr haf ynglŷn â'r math o gefnogaeth y gallai'r Gronfa newydd ei darparu. Rhaid i unrhyw gynllun a bennir gennym gydymffurfio'n llawn â rheolau Cymorth Gwladwriaethol hefyd.

Ynglŷn â phapur newydd Cymraeg, ar 9 Awst 2007, cyhoeddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth iddo ofyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg adolygu'r wasg brintiedig yng Nghymru. Diben yr adolygiad oedd creu darlun clir a chynhwysfawr o gyflwr y wasg brintiedig Gymraeg yng Nghymru. Gofynnwyd iddo hefyd ymchwilio i sut y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi'r argymhelliad yn nogfen 'Cymru'n Un' 'i gynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg', ar waith mewn ffordd gynaliadwy.

Penodwyd Dr Tony Bianchi gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal yr adolygiad, ac mae ei adroddiad, 'Arolwg o'r Wasg Brintiedig Cyfrwng Cymraeg', a gyhoeddwyd ar 14 Ionawr, yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r cyhoeddiadau a oedd yn rhan o gylch gorchwyl yr adolygiad—Golwg, Y Cymro, Barn, a'r papur newydd dyddiol Cymraeg arfaethedig, Y Byd—yn ogystal â chymariaethau rhyngwladol defnyddiol.

Ar 5 Chwefror, yn sgil ymrwymiad 'Cymru'n Un', cyhoeddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth, mewn datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn, y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu £600,000 yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni'r ymrwymiad yn nogfen 'Cymru'n Un', hynny yw, £200,000 y flwyddyn tan 2011. Mae hynny'n ychwanegol at y £173,000 sy'n cael ei wario ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Gyngor Llyfrau Cymru, ar gyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes Cymraeg. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn hwb sylweddol i'r wasg brintiedig Gymraeg, a bydd yn cryfhau ac yn ymestyn y ddarpariaeth bresennol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i weld cynlluniau blaengar a chyffrous yn cael eu cyflwyno i Gyngor Llyfrau Cymru, a fydd yn gweinyddu'r cyllid hwn.

Mewn perthynas â chreu Gŵyl y Banc ar Ddydd Gŵyl Dewi, nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno gwyliau banc na newid eu dyddiadau. Yr unig ffordd o sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol i gyflawni hyn fyddai petai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a fyddai wedi hynny'n amodol ar gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, Llywodraeth y DU a dau Dŷ'r Senedd.

Rhaid i mi hefyd dynnu eich sylw at y ffaith nad yw'r mater hwn yn rhydd o gymhlethdodau cyfreithiol. Hyd yn oed petai gennym gymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno gwyliau banc neu newid eu dyddiadau, ni fyddai hyn ynddo'i hun yn cynyddu nifer y gwyliau banc, sy'n rhan statudol o isafswm y gwyliau gyda chyflog gwarantedig i weithwyr yng Nghymru. Mae hynny'n cael ei reoli gan Reoliadau Amser Gwaith (fel y'u diwygiwyd) 1998. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn caniatáu i ni ychwanegu Dydd Gŵyl Dewi at y rhestr o wyliau cyhoeddus yng Nghymru ac yn rhoi'r disgresiwn i gyflogwyr ddewis Dydd Gŵyl Dewi fel gŵyl banc ychwanegol neu amgen i staff. Y sefyllfa waethaf fyddai petai gweithwyr yng Nghymru yn gweld bod gŵyl banc neu wyliau arall â chyflog gwarantedig yn diflannu, yn arbennig petai'n ddiwrnod yn ystod y gwanwyn neu'r haf, pan fydd y tywydd yn fwy braf.

Yn ystod y drafodaeth, gwnaethoch gyfeirio at y posibilrwydd o wneud cynnig, ar ran Cymru, i gynnal Gêmau'r Gymanwlad. Mae'r sefyllfa yn hyn o beth yn parhau'n ddigyfnewid. O dan reolau Ffederasiwn Gêmau'r Gymanwlad, byddai'n rhaid i unrhyw gais gael ei gyflwyno gan ddinas unigol, a'i gyflwyno trwy Gymdeithas Gêmau'r Gymanwlad Cymru. Nid oes modd i Lywodraeth y Cynulliad wneud cais ar ran Cymru, ac felly byddai cynnwys ymrwymiad o'r fath yn ein blaenraglen waith yn gamarweiniol.

Hyd yn hyn, nid oes unrhyw ddinas yng Nghymru wedi cynnig cais difrifol, ac yn ôl Cymdeithas Gêmau'r Gymanwlad Cymru, mae'n annhebygol y gwneir cynnig i gynnal y Gêmau yn y dyfodol agos. Rydym yn parhau i drafod digwyddiadau eraill â nhw, gan gynnwys Gêmau Ieuenctid y Gymanwlad, ac rydym yn parhau â'n gwaith i sefydlu Cymru yn lleoliad o'r radd flaenaf ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol, a chyda Gêm Brawf griced yng nghyfres y Lludw yn cael ei chynnal yn 2009 a Chwpan Ryder yn 2010, rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r nod hwnnw.